O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 58

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*2 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*27 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 58

The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*2 March 2026*
Coming into force	*27 March 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 58

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003").

Mae rheoliad 24K o Reoliadau 2003 yn darparu, mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2019 ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2025, na chaiff awdurdod lleol godi swm ar ei gyfrif refeniw i adlewyrchu unrhyw amrywiad yng ngwerth teg buddsoddiad awdurdod lleol mewn cronfa fuddsoddi gyfun. Yn hytrach, rhaid cofnodi'r symiau hynny mewn cyfrif ar wahân sydd wedi ei greu at y diben hwnnw yn unig ac a ddefnyddir at y diben hwnnw yn unig. Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn estyn cymhwysiad rheoliad 24K mewn cysylltiad â buddsoddiadau a wnaed gan awdurdod lleol cyn 1 Ebrill 2025 bedair blynedd ariannol ychwanegol i 31 Mawrth 2029.

Mae rheoliad 24L o Reoliadau 2003 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr arferion cyfrifyddu sydd i'w dilyn gan awdurdod lleol pan fo elfen arall wedi ei rhoi yn lle elfen o ased seilwaith. Mae rheoliad 24L yn gymwys i awdurdodau lleol y mae'n ofynnol iddynt lunio datganiad o gyfrifon yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3362 (Cy. 337)). Rhaid i'r awdurdod lleol naill ai cymryd mai dim yw swm cario ymlaen yr elfen nas cydnabyddir mwyach neu gyfrifo'r swm cario ymlaen yn unol â'r arferion cyfrifyddu a nodir o dan reoliad 25 o Reoliadau 2003. Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn estyn cymhwysiad rheoliad 24L bedair blynedd ariannol ychwanegol i 31 Mawrth 2029.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol,

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 58

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*2 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*27 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adrannau 21(1) a 123(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**).

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2026 a deuant i rym ar 27 Mawrth 2026.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003

2.—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 24K (enillion a cholledion gwerth teg cronfeydd buddsoddi cyfun), yn lle paragraff (5) rhodder—

> "(5) This regulation applies in relation to accounts prepared for financial years falling within the period—
>
> (a) beginning with 1 April 2019 and ending with 31 March 2025;
>
> (b) beginning with 1 April 2025 and ending with 31 March 2029, in respect of an investment mentioned in paragraph (2)(a) that was made before 1 April 2025."

(3) Yn rheoliad 24L(6) (asedau seilwaith)—

(a) yn lle "periods" rhodder "period";

(b) yn lle "2025" rhodder "2029".

(**1**) 2003 p. 26. Mae'r pwerau yn adran 21(1) o'r Ddeddf honno wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru yn rhinwedd adran 24 o'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 24 gan adran 238(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28) a pharagraff 52 o Atodlen 12 i Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 (p. 2).

(**2**) O.S. 2003/3239 (Cy. 319); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2020/110 (Cy. 19), 2022/1254 (Cy. 255) a 2023/439 (Cy. 67).

Jayne Bryant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
2 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 58

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003 ("the 2003 Regulations").

Regulation 24K of the 2003 Regulations provides that, in relation to financial years falling within the period beginning with 1 April 2019 and ending with 31 March 2025, a local authority must not charge an amount to its revenue account to reflect any fluctuation in the fair value of a local authority's investment in a pooled investment fund. Instead, such amounts must be recorded in a separate account established and used solely for that purpose. Regulation 2(2) of these Regulations extends the application of regulation 24K in respect of investments made by a local authority before 1 April 2025 by an additional four financial years to 31 March 2029.

Regulation 24L of the 2003 Regulations makes provision about the accounting practices to be followed by a local authority where a component of an infrastructure asset has been replaced. Regulation 24L applies to local authorities that are required to prepare a statement of accounts in accordance with regulation 8 of the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014 (S.I. 2014/3362 (W. 337)). The local authority must either assume the carrying amount of the derecognised part is nil or calculate the carrying amount in line with the accounting practices identified under regulation 25 of the 2003 Regulations. Regulation 2(3) of these Regulations extends the application of regulation 24L by an additional four financial years to 31 March 2029.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Local Government Finance Policy

and Sustainability Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 58

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*2 March 2026*
Coming into force	*27 March 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 21(1) and 123(1) and (2) of the Local Government Act 2003(**1**).

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) (Amendment) Regulations 2026 and they come into force on 27 March 2026.

Amendments to the Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003

2.—(1) The Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 24K (fair value gains and losses of pooled investment funds), for paragraph (5) substitute—

"(5) This regulation applies in relation to accounts prepared for financial years falling within the period—

(a) beginning with 1 April 2019 and ending with 31 March 2025;

(b) beginning with 1 April 2025 and ending with 31 March 2029, in respect of an investment mentioned in paragraph (2)(a) that was made before 1 April 2025."

(3) In regulation 24L(6) (infrastructure assets)—

(a) for "periods" substitute "period";

(b) for "2025" substitute "2029".

(**1**) 2003 c. 26. The powers in section 21(1) of that Act are vested in the Welsh Ministers in so far as they apply to Wales by virtue of section 24 of that Act. Section 24 was amended by section 238(3) of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c. 28) and paragraph 52 of Schedule 12 to the Local Audit and Accountability Act 2014 (c. 2).

(**2**) S.I. 2003/3239 (W. 319); relevant amending instruments are S.I. 2020/110 (W. 19), 2022/1254 (W. 255) and 2023/439 (W. 67).

Jayne Bryant
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
2 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839829-8

9 780348 398298